

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Tachwedd 7fed 2017 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Gwenda Morris (Cadeiryddes), Eilir Rowlands, Iolo Evans, Gwenda Evans, Eifion Davies, Dewi Pritchard, Maldwyn Jones, Gethin Morris. Gwynedd Jones, Rita Jones, y Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Gary Thomas a Alwyn Jones.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a chafwyd yn gywir.

## **i) Datgan Buddiant.**

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

## **ii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

### **a) Cofeb Rhyfel Llandderfel.**

Roedd y cwmni yswiriant wedi penderfynu rhoi'r gwaith o atgyweirio'r gofeb i gwmni James Cyf, Trawsfynydd. Trafodwyd yr opsiynnau a dderbyniwyd ar gyfer y bolardiau i ddiogelu'r gofeb. Yn anffodus nid oedd y cynghorwyr yn teimlo fod yr enghreifftiau a chafwyd yn addas ar gyfer y safle felly penderfynwyd peidio gosod unrhyw rwystr ar hyn o bryd.

### **b) Eglwys Llanfor.**

Ym mis Hydref roedd y clerc a'r cynghorwyr Rita Jones, Alwyn Jones ac Eilir Rowlands wedi ymweld a'r eglwys i gyfarfod y perchnogion newydd a chlywed eu cynlluniau i'w ail agor fel man cyfarfod er budd y gymuned. Dymunwyd yn dda iddynt gyda'u cynlluniau.

### **c) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-**

i) Cafwyd cadarnhad fod y ffosydd ger Coed y Bedo, Pentre a Pandy, Cefnddwysarn a rhwng Ty'n Bwlch a Tŷ Newydd, Llandderfel am gael eu clirio. Gan mai'r Adran Addysg oedd yn gyfrifol am y safle parcio o flaen Ysgol Ffridd y Llyn awgrymwyd y dylid cysylltu â hwy am y pwll o ddŵr oedd yn casglu yno.

ii) Casgliad deunydd ail-gylchu o Fedw'r Gog, Frongoch - roedd y gweithlu wedi cael eu hatgoffa i gasglu'r deunydd ailgylchu yn wythnosol.

iii) Adeilad yr hen Ysgol Fritanaidd, Glanrafon - cafwyd cadarnhad fod swyddog o'r Adran Rheolaeth Adeiladu wedi ymweld â'r safle i drafod cyflwr yr adeilad gyda'r perchennog. Roedd y perchennog wedi cytuno i wagu'r llechi rhydd o'r rhwyd/netin yn fuan ac roedd am ail doi tu blaen yr eiddo yn y gwanwyn.

iv) Torri canghennau'r coed rhwng giât mynediad y Mynydd Du ac Ysgol Ffridd y Llyn, Cefnddwysarn – roedd yr Arolygwr wedi ymweld ar safle ond nid oedd yn teimlo fod rwystr yno ar hyn o bryd.

v) Tocio'r gwrych ar ochr y ffordd ger Tŷ Uchaf, Celyn a'r gwrych rhwng Tŷ Nant a Brynethol, Cefnddwysarn - roedd cynlluniau mewn lle i docio'r coed yn Celyn ac roedd pryderon am wrych Tŷ Nant wedi cael eu trosglwyddo i sylw'r Uned Cefnffyrdd.

vii) Atgyweirio'r tarmac newydd ger mynediad Nant y Cyrtiau, Cwmtirmynach – cytunwyd y fyddai'r gweithlu yn lefelu'r ffordd cyn gynted a phosib.

viii) Atgyweirio'r Bont Fawr, Llandderfel – cafwyd cadarnhad fod Swyddog o Ymgynghoriaeth Gwynedd am archwilio'r bont. Erbyn hyn roedd difrod pellach i'r bont felly gofynnwyd i'r clerc basio'r manylion i'r swyddog.

## **iii) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### **a) Cyngor Gwynedd.**

i) Gorchymyn gwahardd a chyfyngu aros a manau parcio ar y stryd (Ardal Meirionnydd) 2017 – derbyniwyd manylion am y bwriad i wahardd cerbydau rhag parcio ar unrhyw adeg ar gyffordd Heol yr Eglwys a Heol Trafalgar Llandderfel. Roedd y cynghorwyr yn ymwybodol fod prinder manau parcio yn y Sgwar ond hefyd yn ymwybodol fod pryder y gall yr holl gerbydau sy'n parcio ger y gyffordd rwystro cerbydau brys mewn argyfwng. Cytunodd y Cyng. Elwyn Edwards drafod pryderon y cynghorywr gyda Chyngor Gwynedd.

ii) Cynllun Hunaniaith –gwybodaeth am y cynllun i geisio gynyddu’r defnydd a wneir o’r Gymraeg gan grwpiau a gweithgareddau cymunedol.

**b) Llywodraeth Cymru.**

i) Taliadau Claddu ar Gyfer Plant – ym mis Mawrth eleni roedd y Prif Weneidog wedi ymrwymo i ‘wneud yn siwr na fyddai taliadau claddu ar gyfer plant bellach yn gymwys yng ngymunedau Cymru’. Gan fod y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am reoli mynwentydd gofynnwyd os y fyddant yn fodlon peidio a chodi unrhyw ffioedd mewn perthynas a chladdeigaeth plentyn. Roedd y Llywodraeth yn gwerthfawrogi’r oblygiadau ariannol o beidio codi tal ac mi fyddai bydd swm priodol o gyllid ar gael. Cytunwyd yn unfrydol i ymuno a’r cynllun.

ii) Adolygiad o’r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – manylion am y digwyddiadau ymgynghori.

**c) Comisiwn Ffiniau i Gymru**

i) Arolwg 2018 o etholaethau Seneddol yng Nghymru – cynigion diwygiedig.

**ch) Panel Annibynnol Cymru.**

i) Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018/19 – adroddodd y clerc ei bod wedi anfon am arweiniad pellach gan Un Llais Cymru ynglyn a’r oblygiadau newydd o dalu’r costau priodol i’r cynghorwyr cymuned. Yn y gorffennol roedd y cynghorwyr wedi cytuno i beidio hawlio unrhyw gostau teithio ayyb ac yn dymuno parahau gyda’r drefn yma.

**iv) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i’w chefnogi:-

C17/1017/04/YA – Cais hysbysebiad ymlaen llaw ar gyfer codi adeilad ar gyfer defnydd coedwigaeth. Llannerch yr Eryr, Llandderfel.

**v) Unrhyw Fater Arall.**

a) Cais i gael diffibriliwr yn mhentref Glanrafon.

Yn dilyn achos brys yn ddiweddar roedd y trigolion lleol yn awyddus i osod diffibriliwr er budd y gymuned. Eglurwyd os byddai’r gymuned yn gallu codi arian i brynnu’r offer mi fyddai’r Cyngor Cymuned yn gallu hawlio’r TAW yn nol ac hefyd yn gallu ychwanegu’r offer i’r polisi yswiriant.

b) Torri ochrau ffyrdd.

Dros yr wythnosau diwethaf roedd gweithwyr Cyngor Gwynedd a’r Uned Cefnffyrdd wedi bod yn torri ochrau’r ffyrdd yn yr ardal. Gan eu bod wedi gadael y gwaith mor hwyr yn y flwyddyn roedd glaswellt a mwd wedi cael ei adael ar y ffyrdd ac roedd yn debygol o dagu’r ffosydd a’r gwteri. Gofynnwyd i’r clerc ofyn iddynt glirio’r ffosydd a’r gwteri cyn y gaeaf.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,  
Rhagfyr 5ed yn Neuadd Myanch am 7.30 y.h.**